**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-549
Ein cyf/Our ref: FM/00648/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

23 Mehefin 2014

Annwyl William

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 30 Mai yn gofyn barn ar ddeiseb i wneud Hen Wlad fy Nhadau yn Anthem Swyddogol Cymru.

Mae rhai agweddau ar y cynnig yn anghywir. Cyfansoddwyd Hen Wlad fy Nhadau ym mis Ionawr 1856, a dathlwyd 150 mlynedd ers ei chyfansoddi yn 2006, drwy gynnal cyngerdd yn nhref enedigol y cyfansoddwyr, sef Pontypridd, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Llwyddodd Cymru i drechu Seland Newydd ar 16 Rhagfyr, 1905, felly yn 2005 y dathlwyd canmlwyddiant y digwyddiad hwnnw.

Ar ôl cyfansoddi Hen Wlad fy Nhadau yn 1856, cynyddodd ei phoblogrwydd nes iddi gael ei chydnabod fel ein hanthem genedlaethol, er nad oes iddi statws swyddogol na chyfreithiol. Mae hyn yn wir am holl anthemau cenedlaethol y Deyrnas Unedig: nid oes iddynt unrhyw statws cyfreithiol, ac fe'u defnyddir fel rhan o draddodiad ac fel arwydd o'u poblogrwydd parhaus.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ffordd, felly, o ddynodi mai Hen Wlad fy Nhadau yw Anthem Genedlaethol swyddogol Cymru. Nid yw hyn yn tynnu oddi ar statws yr anthem genedlaethol, o ganlyniad i'w phoblogrwydd a'r ffaith fod pobl Cymru wedi'i derbyn i'w calonnau.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk